

SUT MAE YMDOPI FEL

Gall Ysgol fod yn anodd - ti siwr o fod wedi sylwi.

Onid gall fod yn fwy anodd i fod yn Gristion yn yr Ysgol.

Ceisio gwneud dy waith, bod yn esiamp a thystiolaeth i ffrindiau a hynny heb edrych yn 'weirdo'.

Mae'n hawdd meddwl dy fod ar dy ben dy hun pan yn y sefyllfa yma, ond mae'n bwysig cofio fod milloedd o Gristnogion wedi neu yn mynd trwy'r un sefyllfa â ti. A beth sy'n bwysicach i gofio ydi fod Duw wedi eu cadw pob un! - 'Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daloni o blaid y rhai sy'n ei garu.' - Rhufeiniaid 8: 28.


Nid yn unig fod Duw yn gaddo i fod gyda ti ond mae hefyd wedi rhoi hanesion pobl yn y Beibl i'n helpu.

Un o'r bobl yma oedd Daniel. Gad i ni edrych ar ei hanes i ddyysgu sut y gallwn ymdopi.

1 > **Gweddïa.** (Daniel 2.19)
Drwy'r hanes gwelwn fod Daniel yn gweddïo. Gwna di yr un peth - gweddïa y bydd Duw yn dy gadw yn yr ysgol ac yn dy helpu. A chofia fod Duw yn ateb gweddï, nid 'wishful thinking' ydi gweddï ond ffordd o siarad gyda'n Tad sydd yn Dduw nerthol - Does dim y tu hwnt iddo Ef.

4 > **Bydd yn onest.** (Daniel 6. 10-11)
Doedd Daniel byth yn cuddio'r gwir amdano'i hun - roedd yn blentyn i Dduw (hyd yn oed os oedd hyn yn golygu y byddai'n cael ei daflu i'r llewod). Os wyt ti yn Gristion, yna paid â chuddio - bydd yn onest. Os oes rhywun yn gofyn cwestiwn i ti am fod yn Gristion - ateb e yn onest.

2 > **Gwna dy orau yn dy waith**
Roedd Daniel yn dda iawn yn ei waith gyfle i fod yn dystiolaeth i Dduw. Mynw yn ein galw i siarad gyda phobl am nym gyfrifoldeb i wneud ein gorau ffordd mae rhywun yn byw yn dweud ddaw allan o'i geg. Felly gweithia'n ga



W.W.J.D

CRISTION YN YR YSGOL?

Cafodd Daniel ei gymryd gan Frenin Babilon pan oedd yn hogyn ifanc, cafodd ei gludo ymhell o'i gartref (Israel) a'i orfodi i ddysgu am dduwiau Babilon.

Yn amlwg does dim amser i edrych yn fanwl ar holl hanes Daniel yn yr erthygl hon - ond mae yn hanes anhygoel. Mae Daniel yn esiampl gwych i ni ac fe wnaeth Duw ei ddefnyddio mewn ffordd arbennig.

Felly beth am ddarllen ei hanes? Mae ei hanes i gael yn llyfr Daniel a'r saith pennod gyntaf. Darllena un bennod bob dydd a beth am ysgrifennu beth wyt wedi ei ddysgu mewn llyfr.

Dyma rai pethau yr ydych chi wedi eu sylwi o'r hanes a wnaeth Daniel a oedd yn help iddo sefyll dros Dduw mewn sefyllfa anodd iawn.

5 > Ymlacia a Thyrystia.

Bu'n rhaid i Daniel a'i ffrindiau wynebu sefyllfaoedd anodd iawn. Er hyn i gyd roedd Duw yn rheoli ac yn eu cadw. Nid oedd modd i'r fflamau, llewod na'r brenhinoedd eu cyffwrdd.

Tydi Duw ddim yn gaddo y caiff ei blant amser hawdd ar y ddaear ond mae yn gaddo y bydd yn gymorth iddynt. Ac y bydd yn eu cadw ac un dydd fe gaiff pob Cristion dreulio gweddill ei amser gyda Duw yn y nefoedd.

Felly ymlacia a thyrystia yn Nuw. Mae'n dy garu ac yn gwybod am dy sefyllfa a bydd yn gymorth i ti, fel yr oedd yn gymorth i Daniel!

(Daniel 6.3)

ith a thrwy hyn fe gafodd Mae'n hawdd meddwl fod Duw dano yn unig, ond mae gen- yn ein gwaith. Cofia fod y d llawer mwy na'r geiriau a led!

3 > Ffrindiau. (Daniel 1.6)

Roedd Sadrach, Mesach ac Abednego yn ffrindiau - pan aeth pethau yn anodd roedden nhw yn gymorth i'w gilydd. Mae'n bwysig cael ffrindiau sy'n Gristnogion. Mae Duw wedi ein creu i fod angen ffrindiau - felly cofia rannu gyda dy ffrindiau (a bydd yn ffrind da). Os nad oes ffrindiau sy'n Gristnogion yn yr ysgol - cofia fod rhai yn y capel.

Rhai adnodau i helpu:
Rhufeiniaid 8: 28 - 32
Rhufeiniaid 8: 38 - 39
2 Corinthiaid 10: 3 - 4
Effesiaid 2: 4 - 5